



## Llun y mis Coch y Berllan

gan Dewi Edwards

**Enwau amgen:**  
aderyn pensidan  
chwibanydd  
aderyn y berllan  
rhawngoch  
twm cwinc  
gwas y siri

Enwau Adar gan Dewi E. Lewis  
(Gwasg Carreg Gwalch)

### Y gynffon sidan yng Nghymru

Blynyddoedd y gynffon sidan yng Nghymru: 1788 Dinbych; 1906 Llanuwchllyn; 1859 Caerdydd; 1898 Corwen; 1921 Rhos ar Wy; 1927 Llysaen; 1942 Dolgarrog; 1946 Aberdaugleddau; 1947 Caerdydd, Llangollen a Bangor; 1952 sir Drefaldwyn; 1965 mewnlifiad mawr; 1966 (nifer o leoedd); 1988 Aberogwen; 2004 Rhuthun; 2008 Llandudno ac Aberogwen; 2010 (Bangor). (os am fwy o wybodaeth ewch i DDYDDIADUR Llên Natur)

#### Garth Meilo, Dinbych; Rhagfyr 1788

THE following extract from a letter...should prove of interest because it refers to one of the first Waxwings recorded as visiting this country, and it is remarkable that the specimen, although now 120 years old, should still be in good condition. Mr. R.D. Roberts [awdur llythyr] writes: "The quotation in your 'Vertebrate Fauna of North Wales' from Pennant's 'British Zoology,' under the heading 'Waxwing' is interesting to me in as much as the bird referred to is in my possession, and though shot in 1788 is in perfect condition. The account on the back of the case being nearly illegible through age I recently had copies printed, and enclose one." The label reads as follows: Bohemian Chatterer or Waxwing. (Bombycilla Garrula.) Kill'd during the cold Frost in December, 1788, at Garth Meilo, in the County of Denbigh, by Mr. William Dod, of Edge, in Cheshire. It was perching in one of the Fir Trees in the Avenue to the House.

British Birds: Awst 1908

#### Llanuwchllyn; 7 Tachwedd 1906

On 7th November 1906, a dull, misty day, with a good many Redwings and Fieldfares moving about, my attention was drawn to a female Sparrow-Hawk beating along a hedge side, not far from the station. She was moving with that slow owl-like flight so characteristic of this bird when on the lookout for prey, and presently she disturbed a Waxwing

from the hedge and drove it directly towards me. Though hard pressed for some distance, the bird held boldly on, and darting through the branches of an oak, close to where I stood, threw out its pursuer. It then mounted, chattering loudly, into the air, and was quickly lost to view in the mist. So narrow was its escape, that at more than one twist I saw the long talons of the hawk shot out to grasp it. Curiously enough, the last Waxwings I had seen alive in this country were a pair, in November, a year or two previously, which also happened to be attacked by a hawk. In that instance, however, the aggressor was a Merlin, and the stoop was

made at the birds as they sat eating haws, on the top of a hedge within a few yards of us. It would be more correct to say that the stoop was being made, for, just before reaching the quarry, the hawk saw us and sheered off. In that case, too, the Waxwings celebrated their escape by loud chattering, and, mounting straight into the air, disappeared.

George Bolam 1913: Wildlife in Wales

#### Llysaen; Rhagfyr 1927

Week before Xmas, Appleby tells me, 4 waxwings during frost before Xmas at Llysaen, 1 was shot & 1 caught & 2 escaped, to be exhibited at Bird Show, Llandudno on Feb 22...a pr of Peregrines at Llysaen

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele

#### Llandudno; 22 Chwefror 1928

Waxwing won 1st prize Llandudno Feb 22 1928..The escaped Waxwings were seen again at same locality (Chwarel Ganol, Llysaen) a fortnight ago Feb 21. 1928

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele 1922-1942

#### Dolgarrog; 6 Chwefror 1942

In view of the apparent scarcity of Waxwings (Bombycilla garrulus) in North Wales, we publish belatedly a record of one seen by Mr. W. L. Roseveare near Dolgarrog, Caernarvonshire, on February 6th, 1942, a time when there was a small-scale invasion in progress.

British Birds 12 December 1951

Llun y gynffon sidan: Alun Williams 27 Tachwedd 2010

## Y ddfafad - trem yn ôl

Pwy sy'n cofio gweld neu glywed am glychau defaid, neu gaws defaid, yng Nghymru? Dyma ddau gofnod perthnasol: 24 Ion 1798 (Aloxden, Cumbria): *Walked between half-past three and half-past five. The evening cold and clear. The sea of a sober grey, streaked by the deeper clouds. The half dead sound of the near sheep-bell, in the hollow of the sloping coombe, exquisitely soothing.*


Dyddiadur Dorothy Wordsworth

*Many stories are told about Catherine Jones [gwraig Thomas Jones, fferm Gwninger, Niwbwrch]...It is said that in the summer after selling the lambs she milked the ewes, and made butter (nearly white in colour) for use on the farm, so that she could sell all the butter made from the cows' milk*

O drafodion yr Ang. Ant. Soc. & Field Club 1956

## Eira cyntaf, eira cynnar ac eira hwyr

**Cafodd Prosiect Llên Natur** anrheg gwerthfawr gan Les Larsen, Penisarwaun, yn ddiweddar, - sef cofnodion dyddiadau'r eira cyntaf i ddisgyn ar fynyddoedd Eryri pob gaeaf bron ers iddo ddechrau cofnodi yn - ac arhoswch amdani....1942. Dyma'r cofnodion, wedi eu trosglwyddo i siart.



Mae ambell fwch yn y cofnodion, er enghraifft pan oedd Les yn yr RAF, ond mae'r gyfres yn dangos yn glir bod tuedd i'r eira cyntaf ddisgyn ar fynyddoedd Eryri yn hwyrach heddiw nac yn nechrau'r cyfnod (ar ôl gwneud y syms, unwaith mewn mil fyddai'r data hyn yn digwydd ar hap). Afraid dweud bod hyn yn gyson a Chynhesu'r Hisawdd. Diolch Les am rannu eich gwaith a'ch gw bodaeth gwerthfawr á ni.

**Mewn cyfweliad** gyda William Owen o Ddyffryn Ardudwy ar raglen Dei Tomos ym mis Tachwedd y llynedd, soniodd WO am ei fam Rhinogwen yn cael ei geni (ar yr un diwrnod â Kyffin Williams!) pan oedd eira ar y Rhinogydd gerllaw. Felly y cafodd ei henw Rhinogwen. Y dyddiad hwyr oedd 9<sup>ed</sup> Mai 1918. Oedd yna eira ar y mynyddoedd ym mis Mai y flwyddyn honno ynteu rhamant teuluol ydoedd? Cofnodion o Ben Llên yn unig sydd i'w cael am y cyfnod yn Nyddiadur Llên Natur - nid yr ardal orau i brofi eira mis Mai!

Ol-nodyn difyr: Dyma gofnodwyd 12 Mai diwethaf: Cenllysg yn Waunfawr echdoe ac eira i lawr bron at lefel Bethesda meddai rhywun arall, ond nid ar yr Wyddfa. Chwilen *Melasma populi* (un) yn y twyni yn Niwbwrch dydd Sadwrn 8 Mai.

Dyddiadur Llên Natur

## Opiwm

Pwt o ddyddiadur William Bulkely, Brynddu tra roedd yn aros yn Nulyn ar 25 Hydref 1735: *The wind S.W.; rained almost all day. Paid 6/- for a pair of shoes; paid 4d. for 1/4 dr. of opium; paid at my lodging house 4/6 for Punch.*

Meddai Twm Elias: "roedd 'na ddefnyddiau meddygol pwysig iawn i opiwm (sug y pabi gwyn) ac fe'i ceid fel soled wedi ei sychu o sug y ffrwyth. Neu gellid ei doddi mewn alcohol a dŵr (cyfartaledd 1 : 1 : 1) i greu Laudanum, oedd yn fwy cyfleus ac yn gweithio'n gynt. Fel hypnotig a thawelydd ('sedative') roedd yn ddefnyddiol iawn i leddefu poen a thawelu rhywun oedd wedi gorgynhyrfu. Roedd ei effeithiau 'astringent' yn dda ar gyfer y bib a dysentri a'i effeithiau expectorant, diafforetig, tawelyddol ac antispasmodig yn ei wneud yn dda ar gyfer rhai mathau o beswch. Mae 'na dros 20 o wahanol alcaloidiau mewn opiwm, a'r ddau fwyaf cyfarwydd erbyn heddiw ydi Codeine a Morphine. Mae'n cael ei dyfu dan drwydded mewn sawl gwlad i gyflenwi'r cyffuriau meddygol hyn ond mae 'na gryn dyfu arno fo hefyd i gyflenwi'r farchnad gyffuriau anghyfreithlon! 'Sw'n i'n feddwl mai i bwrrpas meddygol yr oedd Bulkeley yn ei brynu...?"

Clywais yn ddiweddar bod tad yr actor enwog Kenneth Williams yn gaeth i heroine ar ffurf y moddion cyffredin Gee's Linctus (Gol.)

## Y glaw coch

Mae llwch o'r Sahara, ac o amryw o barthau eraill o'r byd hefyd, sy'n disgyn mewn glaw gan adael staeniau coch neu felyn ar geir a ffenestri, yn eithaf cyfarwydd i ni heddiw. Ond tybed beth oedd pobl yr oes o'r blaen yn ei feddwl am y ffenomenon:

Ar 7<sup>ed</sup> Mehefin 1607 yn Colyton, Dyfnaint fe ddisgynnodd *not far from the town, rain, being as it seemed a thunder shower, and some thunder heard withal, amongst which were certain drops fell like blood, which stained those things as it fell on. I saw a partlet stained therewith, and it seemed as it had been blood. Joan Milles showed the same coming home from milking* (Dyddiadur Walter Yonge)

Ac yn Rhiw, Pen Llên ar yr 11 Ionawr 1926:

*Niwl coch bore heddiw.* Dyddiadur Griffith Thomas, gwefan Rhiw.com

## Tyrchod Gwenallt

Ann Corkett welodd gysylltiad rhwng tyrchod Robin Gwyndaf yn gwynnu yn yr haul (Bwletin 33) a cherdd Gwenallt yn Rhydcymerau

...Ac ar golfenni, fel ar groesau,

Ysgerbydau beirdd, blaenoriad, gweinidogion ac athrawon Ysgol Sul Yn gwynnu yn yr haul,

Ac yn cael eu golchi gan y glaw a'u sychu gan y gwynt.

## Dyfyrdws

Meddai Robin Gwyndaf - "Ydych chi tybed yn gyfarwydd â'r dywedriad 'Llyncu dyfyrdws', am ferch yn disgwyl teulu. Clywais hyn gan Eleri (Glyn Ceiriog). (Cymh. 'llyncu pry'). Byddai gwartheg yn llyncu'r pryfyn hwn wrth yfed dŵr, yna byddai eu boliau'n chwyddo. Methais â gweld yr enw yng Ngeiriadur y Brifysgol. Oes ffurf arall ar yr enw? Beth yw'r enw gwyddonol a Saesneg? Pa mor gyffredin yw'r dywedriad?"

Ol-nodyn difyr: Dyweder nad ydyw fwyd cyfaddas i rai beichiogion, nac sawl sydd chwanog i glefyd y fam, neu wynt; eithr hi a ryddha y colyddion, ac a bureiddia y gwaed.

Planhigion Llesol o Lyfr Lleseuaeth Gymraeg gan Hugh Davis



## Storm fawr 14 Ionawr 1938

**Abereddidi 1938:** *A typhoid outbreak, and hurricane..in 1938, which severely flooded the area, left the village a ghost town. There are only a handful of surviving buildings which are only occupied now as holiday lets*

Llyfr a CD Cerys Matthews, Aberystwyth



*Abereddidi. These idyllic scenes belie it's sad demise - a typhoid outbreak and hurricane a few years later in 1938.*

**Aberstwyth:** *In 1938, Aberystwyth was hit by one of the worst storms in its history. Houses on the seafront were devastated and the pier was shortened by 200ft.*

Woodward A. & Penn R. . The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton)

**Llangristiolus, Môn:** Diwrnod go damp!...Wel cododd wynt mawr a glaw ac y mae yn storm ofnadwy rwan

Dyddiadur Owen T. Griffiths, Llangristiolus

**Trearddur:** *The very severe SSW to SW gale of January 14th, 1938, wrought much damage to the [St Ffraid] burial mound at Trearddur Bay. The forcing wind caused the tide to rise higher than usual [exposing] to view several graves. Human skulls...were lying scattered about...force and direction of wind, caused these two tides to rise at least two feet above normal. The Holyhead-Trearddur Bay Road was rendered almost impassable and several houses were marooned by the inrush of water WBT*

Trans. Ang. Ant. Soc. & Field Club 1938.

**Pier Aberystwyth 15 Ionawr 1938:** Pier Aberystwyth wedi ei thorri yn ddwy, llanw uchel, gwynt cryf o'r de, y llanw uchaf yn ffodus ychydig ddyddiau wedyn

(Helo Bobl, Radio Cymru 26 Ebrill 1988)

**Esgerdawe, Caerfyrddin** *A storm has raged throughout the night. Annie came home from Aberystwyth College owing to damage to halls by wind & sea...Rugby - Wales beat England 14-8 [Moc (Gorilla of the London zoo died age 9.5 yrs wt 23 stones 14 Ionawr 1938)]*

Dyddiadur Defi Lango (Gol. Goronwy Evans)

**Llangristiolus, Môn:** gwynt mawr o hyd [16 Ion]. Y mae y polion yma yn cael eu hysgwyd. Carthu y beudy a sgubo'r court. Yna i llnau y gwtewr yn lon...Wel mae yn oer ac ofn pawb yw storm a pholion i lawr yn y bore...Wel diflas o ddiwrnod yn y wir...Mae Tommy Farr yn siwr o guro dydd Gwener

Dyddiadur Owen T. Griffiths, Rhos y Ffordd, Llangristiolus

Rwan ewch i chwilio yn nyddiadur gwefan Llên Natur am gofnodion diweddarach yr un mis, sef 25 Ionawr am Oleuni'r Gogledd (Gol.).

## Cig yn diferyd

Pan fyddai'r cig a oedd yn hongian o dan y nenfwd yn diferu yn yr haf cymerwyd hyn fel arwydd o dywydd da

John Jones, Pelcombe, Penfro

## Adar cynffon sidan - cyrraedd Llydaw?

Dydw i ddim wedi clywed am adar cynffon sidan yma yn Llydaw.

Olier ar Mogn, Llydaw

## Pwll Chwarae Teg



Cafodd Gareth Roberts hyd i'r "garreg hetar" hon ar Ros Marchlyn. Dyma'r garreg a ddefnyddid ers stalwm i rannu dŵr afon Marchlyn Mawr fel bo'i hanner yn llifo i blwyf Llandygai i fwydo'r Felin Hen, a'r hanner arall yn cael ei droi ...i'r afon cegin ar gyfer Melin Pentir...Roedd hon yn cael ei gosod yng ngwely'r afon ac yn cael ei hail-osod bob blwyddyn (cyn codi'r wal drosti!) pan fyddai trigolion y ddau blwyf yn cerdded y terfynau. Roedd hi'n amlwg felly fod y garreg yn ddigon mawr a thrwm i aros yn ei le am flwyddyn er mwyn hollti dŵr yr afon. Ond doedd hi ddim yn rhy drwm i allu symud.

Cyfrannwyd y llun gan Eco'r Wyddfa (colofn Dafydd Whiteside) la, 'pwll chwarae' teg' oedd yr enw, meddai Twm Elias, ac mi glywais y term gan Bob Roberts hefyd. Yn nhopiau Capel Ucha, Clynnog roedd 'na bwl chwarae teg oedd yn fodd i rannu dŵr rhwng rai o'r tyddynod. Pan fyddai ei angen ar adegau arbennig, fel troi olwyn ddŵr i gorddi neu falu ŷd, y drefn fyddai i bwy bynnag fyddai angen y dŵr, i hysbysu ei gymdogion (i osgoi ffræo!) ac, os oedd popeth yn iawn, i droi'r dŵr, o'r pwll, i ffos fyddai'n arwain y llif i'w olwyn ddŵr. Wedi gorffen byddid yn cau ceg y ffos a gadael i'r afon fach ddilyn ei chwrs naturiol. Ond fyddai petha ddim yn rhwydd bob tro, pobol ydi pobol wedi'r cyfan. Byddai un, dwi'n cofio, yn ddigon haerllyg i beidio a thrafferthu hysbysu ei gymdogion o'i fwriad a mynd ati, yn llythrennol, i 'droi'r dŵr i'w felin ei hun'. Roedd hynny'n drosedd cymdeithasol a ddim yn chwarae teg o gwbl.

## Rhosod Caeredin...mwy

Dyma'r cenadwri a gafodd y daearegydd Ray Roberts gan ei gydweithwyr yn yr Alban am rosod Rose Street, Caeredin (Bwletin 34): *Mike Browne came up with information from a web site. "There are eight large pebble mosaics by Maggy Howarth. As well as foot traffic, they were designed to withstand the weight of delivery vans and service vehicles. The mosaics are around 2 metres across and each one is a different variation on the rose design. I found this on a web page trying "mosaic roses" : 'mosaicists will know the difficulties of hand collecting legally in the UK, not to mention the backache. Cobblestone Designs has been importing stones from the Far East, China and India for several years, primarily for our own use'. So it looks as if the stone came from much further east than Eastern Scotland.*

Diolch i ddaearegwr CCGC Ray Roberts

## Siwgwr coch a siwgwr gwyn

"Tegwyn yn hadu clofer o Ruthun"\* . Clofer cymysg o goch a gwyn oedd hwn, mae'n debyg. Mae Tegwyn yn cofio hefyd mynd i fferm Coed Acas, ger Dinbych, i nôl clofer coch, clofer brasach. Mae hyn yn f'atgoffa o ddau enw hyfryd oedd gennym ni, blant Uwchaled: 'y borfa'n drwch o siwgwr coch a siwgwr gwyn'.

Dyddiadur John Hugh Jones, Rhafod, Llangwm; sylwadau Robin Gwyndaf, ei fab



## CYWYDD BERWYN gan Cynddelw

"Mwyar Doefon" mawr dyfiad;  
Mwyara a llusa'n llon  
Mewn byd wyf man bu Doefon  
Ar garn y bre ger ein bron,  
Yn foreu'i caid ar frig gwyn  
Mor bur a mwyar Berwyn

gyda diolch i Robin Gwyndaf

## Ambell gylch ac ambell dwmffat



Dyma (uchod) gylchoedd o gwmpas yr haul brynhawn yr 16 Tachwedd 2010 a welodd Arfona Jones, Golan. Meddai Arfona: "Beth tybed fydd y tywydd ar ol hyn. Mae yn gaddo gwynt a glaw."



Wel Arfona, diolch i'ch hen gylchoedd gawson ni 18mm o law y diwrnod wedyn! Ond, sbiwch be gawson ni (chwith) y diwrnod cynt (15 Tachwedd) oddiar glannau Llangwnadl....


## Gwrthdro tymheredd....gyda bwncath

Dyma ddau lun o'r un bwncath ar yr un polyn trydan. Roedd y bwncath yn torheulo uwchben y tARTH ar ben y polyn. Mae un llun wedi ei dynu o ganol y tARTH (cysgod yr aderyn yn dangos bod ei adenydd wedi eu lledaenu dros ei gorff er mwyn cael gwres yr haul) ac mae'r llun arall wedi ei dynu uwchben y tARTH tua munud yn ddiweddarach o ongl arall (roedd o wedi codi ei adenydd yn y llun yma yn barod i hedfan).

Llun a stori: Gwyn Williams, Rhuthun



## Geifr argae Ciginio, yr Eidal



Mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi fod yn amheus o'r lluniau syfrdanol hyn o eifr ibecs yn bwyta man geniach ar gerrig yr argae gan i ni gael ein dal allan fwy nag unwaith ym Mwletin Llen Natur gan luniau ffug neu led-ffug ar y we. Ond ymddengys mai "stills" o fideo ydynt - mwy credadwy felly?

Diolch i Haf Meredydd am eu rhannu

## Pengwyniaid Cymraeg?

Mae'r rhaghysbyseb i fersiwn ar-lein newydd yr Oxford English Dictionary yn dweud fel hyn: *the earliest recorded use of penguin can be traced back to Wales. Whilst the famous flightless bird was being referred to as gare-fowl in the far north of Europe, the Welsh coined the term from two words - pen meaning head and gwyn meaning white. The first written citation is from 1577, "Infinite were the Numbers of the foule, wch the Welsh men name Pengwin & Maglanus tearmed them Geese."* Datganiad i'r wasg gan gyhoeddwr yr OED Dyma ddywed Geiriadur Prifysgol Cymru am pengwin neu pengwyn (talfyriadau wedi eu dileu): "benthychiad o'r Saesneg *penguin*; ceisir weithiau ei darddu o'r Gymraeg pen gwyn.

## Tachwedd cyneddfawr 1628

Roedd y cyfeiriad yn yr englyn isod at fis Tachwedd yn arbennig o addas, dan yr amgylchiadau [cofier Tachwedd 2010!]

Mil chwechant, bwriant bob awr, – ac ugen,

Ac agos i'r lonawr,

Y[m] mis Tachwedd cyneddfawr,

Ni a wiriwn fod eira yn fawr. [Eira mawr 1628]

Diolch i Cathryn Charnell White, Prifysgol Aberstwyth

A dyma gofnod eira ym mis Hydref gan Steffan ab Owain. "Cafodd Richard Powell ar ei ffordd i Ysbyty Ifan ei ddal mewn storm o eira ar y Migneint a mynd ar goll ac mae'n debyg fferu i farwolaeth. Fe'i claddwyd ar 17 Hydref 1795. Dyddiad tra chynnar am eira trwm" meddai Steffan.